# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

HWLG(3)-11-10-p2: 10 Mehefin 2010

## Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i Fyrddau Lleol Diogelu Plant (BLlDP).

### Diben

1. Mae CAFCASS Cymru yn croesawu'r cyfle i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar i'r pwyllgor ynglŷn â'i ymchwiliad i Fyrddau Lleol Diogelu Plant (BLlDP).

### Cefndir

2. Sefydlwyd y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass) ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2001 pan gyfunwyd y sefydliadau hynny a oedd yn ymdrin â phlant a oedd yn destun achos yn y llysoedd teulu. Yn dilyn darpariaethau yn Neddf Plant 2004, trosglwyddwyd CAFCASS Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 1 Ebrill 2005. Sefydliad Gwaith Cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar blant yw CAFCASS Cymru sy'n darparu cyngor Gwaith Cymdeithasol arbenigol i Lysoedd Achosion Teuluol, y Llysoedd Sirol a'r Uchel Lys. Mae ei brif ddyletswyddau wedi eu nodi yn Rhan 4 (Adran 35) o Ddeddf Plant 2004.

3. Ar ôl symud i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2005, sefydlwyd trefniadau i oruchwylio effeithiolrwydd CAFCASS Cymru, sydd a'i staff rheng flaen yn gweithio yn y Llysoedd Teulu. Cyflogir Cynghorwyr Llys Teulu o fewn CAFCASS Cymru a rheolir eu harferion gwaith o fewn y gwasanaeth, ond maent hefyd yn atebol i'r Llys ar gyfer pob achos y'u penodir iddo. Mae'r Prif Weithredwr yn atebol i'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol am effeithiolrwydd gweithredol y sefydliad ac mae'n atebol i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am faterion eraill megis cyllid ac eiddo ac ati.

4. Cefnogir y Prif Weithredwr gan Bwyllgor Cynghori CAFCASS Cymru a sefydlwyd i gynghori ar faterion sy'n bwysig i randdeiliaid a phartneriaid allweddol, ac ar sut y gellid gwella'r gwasanaethau. Mae'r Pwyllgor yn cael ei gadeirio gan Catriona Williams, Prif Weithredwr Plant yng Nghymru.

### Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

5. Mae prif swyddogaethau CAFCASS Cymru, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi eu nodi yn Rhan 4 o Ddeddf Plant 2004.

6. Mae'r swyddogaethau hyn, o ran achosion teuluol pan fo lles plant sydd fel arfer yn byw yng Nghymru dan amheuaeth, fel a ganlyn:

(a) diogelu a hybu lles plant;

(b) rhoi cyngor i unrhyw lys ar unrhyw gais a gyflwynir iddo mewn achosion o'r fath;

(c) trefnu bod plant yn cael eu cynrychioli mewn achosion o'r fath;

(ch) darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth arall i blant a theuluoedd.

7. Rhoddodd Deddf Plant a Mabwysiadu 2006 gyfrifoldebau ychwanegol i CAFCASS Cymru. Er bod y sefydliad, ers ei sefydlu, wedi cyflawni ei ddyletswydd statudol o ran diogelu, gosododd y ddeddfwriaeth newydd hon ddyletswydd ychwanegol ar Swyddogion Achosion Teuluol Cymru i ddarparu asesiadau risg ffurfiol i'r llys mewn achosion cyfraith breifat, pan fo materion diogelu wedi eu nodi. Mae dyletswyddau pellach a orfodwyd ym mis Rhagfyr 2008 yn cynnwys y gofyniad i fonitro cyswllt a chydymffurfiad â gweithgareddau cyswllt mewn achosion pan fo hyn yn cael ei gyfarwyddo gan y Llys.

8. Mae gan CAFCASS Cymru, felly, swyddogaethau rheng flaen o ran gwella, diogelu a hybu lles plant a phobl ifanc yng Nghymru. Oherwydd natur y gwaith a wneir gan CAFCASS Cymru, mae gan ei ymarferwyr lefel uchel o wybodaeth a phrofiad arbenigol. Mae eu gwaith yn dod â hwy i gysylltiad uniongyrchol â'r plant a'r teuluoedd hynny ble mae'r llysoedd teulu yn ystyried eu hachosion.

### Beth y mae CAFCASS Cymru yn ei wneud?

9. Gellir rhannu gwaith CAFCASS Cymru yn fras i gategorïau Cyfraith Breifat a Chyfraith Gyhoeddus. Er bod achlysuron pan fo materion Cyfraith Breifat a Chyfraith Gyhoeddus yn gorgyffwrdd, gellir eu hesbonio fel a ganlyn:

Cyfraith Gyhoeddus - achosion a gychwynnir gan yr Awdurdod Lleol dan Ddeddf Plant 1989 ynglŷn â gofal a goruchwyliaeth plant a phobl ifanc a llety diogel, a rhai ceisiadau mabwysiadu dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

Cyfraith Breifat - achosion a gychwynnir gan unigolion sy'n ceisio gorchmynion ynglŷn â materion megis cyswllt â phlant yn dilyn gwahanu neu ysgariad, a phenderfynu ble y dylai plentyn neu berson ifanc fyw, yn ogystal â rhai ceisiadau mabwysiadu a gwarcheidwaeth arbennig.

10. Mae prif waith CAFCASS Cymru yn cynnwys cynorthwyo a chynghori Llysoedd wrth ymdrin ag achosion pan fo diogelwch/lles plentyn/person ifanc dan amheuaeth. Mae hyn yn cynnwys cynghori'r Llysoedd ynglŷn ag effeithiolrwydd y trefniadau a wneir gan

Awdurdodau Lleol mewn achosion cyfraith gyhoeddus trwy ystyried trefniadau gofal yn y dyfodol ar gyfer plant sydd wedi dioddef camdriniaeth ac esgeulustod. Mewn achosion o'r fath bydd Llys yn gofyn i Gynghorydd Llys Teulu wneud ymholiadau, ac asesu a dadansoddi effaith unrhyw newid arfaethedig ar blentyn neu berson ifanc sy'n byw yng Nghymru. Bydd y Cynghorydd Llys Teulu yn llunio adroddiad manwl a fydd yn cyflwyno argymhellion i'r Llys eu hystyried. Mae amddiffyn plant hefyd yn berthnasol iawn i waith CAFCASS Cymru mewn achosion cyfraith breifat pan wneir honiadau ynglŷn â diogelu a phan allai dadlau rhwng rhieni arwain at oblygiadau difrifol i les y plant dan sylw.

### Gweithrediadau

11. Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan Gynghorwyr Llys Teulu i'r Llysoedd ar ran plant a phobl ifanc wedi eu trefnu'n ddaearyddol yn 10 cangen ardal sy'n gweithredu o 15 safle ledled Cymru. Mae lleoliadau'r canghennau'n golygu bod y gwasanaeth ar gael yn rhwydd i deuluoedd ac maent yr un mor gyfleus i'r Llysoedd hefyd. Yn gyffredinol, mae'r Canghennau Ardal yn cydffinio â dau neu dri Awdurdod Lleol. Rheolir pob cangen weithredol gan Gyfarwyddwr Ardal, ac fe'i cefnogir gan ddau Gyfarwyddwr Gweithredol sy'n atebol i'r Prif Weithredwr.

12. Ystyrir bod diogelu plant a phobl ifanc yn rhan sylfaenol o swyddogaeth CAFCASS Cymru ac mae ei gyfrifoldeb statudol i "ddiogelu a hybu lles plant" yn sail i hynny, fel yr amlinellir yn a35 (1)(a) o Ddeddf Plant 2004. Mae CAFCASS Cymru wedi llofnodi Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008), a rhoddwyd copi o'r ddogfen hon i'r holl ymarferwyr yn y sefydliad. Mae polisi a gweithdrefnau'r sefydliad ei hun ar amddiffyn a diogelu plant wedi eu diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau yng ngweithdrefnau cyffredinol Cymru Gyfan.

13. I gydnabod y blaenoriaethau ynglŷn â diogelu, mae gan CAFCASS Cymru Gyfarwyddwr Ardal Arweiniol ar gyfer Diogelu sydd hefyd yn aelod o Grŵp Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a Grŵp Swyddogion Diogelu Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ogystal â Gweithgor Cam-drin Domestig Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### Aelodaeth CAFCASS Cymru o Fyrddau Lleol Diogelu Plant

14. Nid yw CAFCASS Cymru yn un o'r asiantaethau a bennir yn nogfen gyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru, DIOGELU PLANT: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 fel partner statudol ar Fyrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru, oherwydd bod y sefydliad yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

15. Fodd bynnag, mae'r ddogfen gyfarwyddyd yn cyfeirio'n benodol at aelodaeth CAFCASS Cymru o Fyrddau Lleol Diogelu Plant. Mae'r ddogfen gyfarwyddyd yn amlinellu swyddogaeth gwasanaeth CAFCASS Cymru yng Nghymru (gweler paragraffau 6 a 7 uchod) ac yn nodi:

'O ystyried ei ddyletswydd statudol i ddiogelu a hybu lles plant, dylai CAFCASS Cymru barhau i fod yn aelod allweddol o bob Bwrdd Diogelu. Dylai Byrddau Lleol Diogelu Plant felly sicrhau bod cynrychiolydd o CAFCASS Cymru yn aelod o bob BLlDP'.

16. Mae'r sefydliad wedi sicrhau cynrychiolaeth ar bob Bwrdd Lleol Diogelu Plant yng Nghymru trwy ei 10 Cyfarwyddwr Ardal gweithredol, sydd hefyd yn gyfrifol am waith diogelu yn eu canghennau unigol.

17. Hefyd, mae Cyfarwyddwyr Ardal CAFCASS Cymru yn aelodau o Is-grwpiau Byrddau Lleol Diogelu Plant. Er enghraifft, mae Cyfarwyddwr Ardal Canolbarth Cymru yn aelod o Grŵp Polisi ac Archwilio BLlDP Powys, sy'n cynnwys Adolygiadau o Achosion Difrifol. Cynrychiolir y sefydliad hefyd ar Is-grŵp Hyfforddiant BLlDP Sir y Fflint.

18. Er mwyn hybu cydweithio, mae CAFCASS Cymru yn ymwneud yn weithredol â Byrddau Lleol Diogelu Plant mewn Adolygiadau o Achosion Difrifol pan fo'r asiantaeth wedi bod neu'n parhau i fod yn rhan o'r achos a adolygir. Ers mis Ebrill 2005, mae CAFCASS Cymru wedi bod yn rhan o ddeg Adolygiad o Achos Difrifol, ac mae pedwar ohonynt yn parhau. Mae CAFCASS Cymru wedi bod yn rhagweithiol mewn nifer o achosion wrth nodi'r angen am Adolygiadau o Achosion Difrifol oherwydd pryderon y Cynghorydd Llys Teulu a oedd yn ymwneud â'r achosion hyn ar adeg eu cyflwyno.

Catrin Williams
Prif Weithredwr (Dros Dro)
Mai 2010